



# Polisi Ffonau Symudol

CREWYD

CREWYD GAN

CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL

DYDDIAD ADOLYGU

11/2016

R Jenkins

17/1/2017

Erbyn

03/2019

## Polisi Ffonau Symudol

### Polisi Ffonau Symudol

Mae nifer helaeth o ddisgyblion yr ysgol yn berchen ffôn symudol. Mae hyn yn cyflwyno sawl her i'r ysgol. Nid yw'n ymarferol i wahardd ffonau symudol yn gyfan gwbl, nac yn bosib casglu'r ffonau ar ddechrau pob diwrnod a'u dychwelyd ar ddiwedd pob dydd.

Y mae'r polisi yma yn caniatáu i ddisgyblion oed uwchradd gael ffôn yn yr ysgol o dan y canllawiau a amlinellir isod. Ni chaniateir i ddisgyblion oed cynradd ddod â ffonau symudol i'r ysgol.

1. Ni chaniateir defnyddio ffôn symudol i unrhyw bwrpas (gan gynnwys ffonio, anfon neges destun, defnyddio'r we, tynnu lluniau neu luniau fideo) mewn unrhyw wers .
2. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd amhriodol o'r ffonau symudol yn ystod yr amser egwyl / amser cinio. Argymhellir yn gryf y dylai disgyblion gadw ffôn symudol mewn locer yn ystod y diwrnod ysgol.
3. Dylai'r ffôn gael ei throi i ffwrdd a'i chadw o'r golwg ym mhob gwrs.
4. Pe bai disgybl yn torri'r rheolau uchod mae hawl gan yr athro i gymryd y ffôn a'i gadw mewn man diogel tan ddiwedd y wers (os mai mân darfu a fu) neu i'w chadw ym mhrif swyddfa'r ysgol tan ddiwedd y dydd. Fe ddychwelir y ffonau ar ddiwedd y dydd i'r unigolyn os mai achos unigryw oedd y camddefnydd.
5. Pe bai disgybl yn torri'r rheolau yn aml bydd yr ysgol (drwy'r Pennaeth neu Dirprwy Bennaeth Ffês) yn cysylltu â'r cartref ac yn gofyn i'r rhiant / gwarcheidwad alw yn yr ysgol i drafod y mater ac i gasglu'r ffôn.
6. Ni chaniateir ffonau symudol mewn ystafell arholiad ar unrhyw achlysur.

### Y Gyfraith:

O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus , anwedus neu fygythiol i unrhyw berson, boed yn llythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd.

Y gosb am dor-cyfraith o'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar , a/neu ddirwy hyd at £5,000.

Ymhellach, os bydd neges yn awgrymu y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd 5 mlynedd o garchar. Os bydd neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd.

### Argyfwng:

Petai disgybl angen cysylltu gyda rhiant / gwarcheidwad fe ganiateir defnyddio ffôn yr ysgol yn y swyddfa yn rhad ac am ddim.

(Ni ddylai disgybl gysylltu yn uniongyrchol drwy ffôn symudol gyda rhiant / gwarcheidwad i ddweud eu bod yn sâl ac angen dod adref. Rhaid i'r disgybl weld Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth Ffês neu rywun yn y swyddfa cyn ffonio adref bob tro.)

Petai rhiant / gwarcheidwad angen cysylltu gyda disgybl ar frys mae modd cysylltu â swyddfa'r ysgol i adael neges. Bydd staff y swyddfa yn sicrhau bod y disgybl yn derbyn y neges.

Cyfrifoldeb am ffonau symudol:

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am achosion o ddwyn, colli neu ddifrod i ffonau symudol tra ar y safle ac yn ystod oriau arferol yr ysgol. Cyfrifoldeb rhiant / gwarcheidwad yw gofalu fod yswiriant ar yr offer.

Mae'r polisi hwn yn weithredol yn Ysgol Bro Teifi.

Arwyddwyd: ..... Pennaeth

Trafodwyd a derbyniwyd y polisi hwn gan y Corff Llywodraethu.

Arwyddwyd: ..... Cadeirydd

Dyddiad: .....